



YSGOL GYMRAEG ABERYSTWYTH



• Cymreictod • Parchu ein gilydd • Gwneud ein gorau glas •



Prospectws Prospectus 2018



CYNNWYS / CONTENTS

- 3 CROESO
WELCOME
- 4 ETHOS A GWERTHOEDD
ETHOS AND VALUES
- 5 MANYLION YR YSGOL
SCHOOL INFORMATION
- 6-7 AMCANION YR YSGOL
SCHOOL OBJECTIVES
- 8 CYFLEOEDD CYFARTAL / ANABLEDDAU
EQUAL OPPORTUNITIES / DISABILITIES
- 9 ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL
ADDITIONAL LEARNING NEEDS
- 10 CERDDORIAETH
MUSIC
- 11 Y CELFYDDYDAU
THE ARTS
- 12 POLISI DERBYN
ADMISSIONS POLICY
- 13 IECHYD A DIOGELWCH
HEALTH AND SAFETY
- 14 PARATOI AR GYFER YR YSGOL
PREPARING FOR SCHOOL
- 15 CLWB BRECWAST / CINIO YSGOL
BREAKFAST CLUB / SCHOOL LUNCHES
- 16 RHIFEDD / MATHEMATEG
NUMERACY / MATHEMATICS
- 17 ORIAU'R YSGOL
SCHOOL HOURS
- 18 GWASANAETHAU CEFNOGOL
SUPPORT SERVICES
- 19 DYSGU AC ADDYSGU / GWAITH CARTREF
TEACHING AND LEARNING / HOMEWORK
- 20 T.G.CH / I.C.T
- 21 ATHRAWON A STAFF
TEACHERS AND STAFF
- 22-23 ADDYSG GORFFOROL A CHADW'N IACH
PHYSICAL EDUCATION AND HEALTHY LIVING
- 24-25 GWYDDONIAETH / ADDYSG GREFYDDOL
SCIENCE / RELIGIOUS EDUCATION
- 26-27 Y GYMRAEG / IAITH
THE WELSH LANGUAGE / LANGUAGE
- 28-29 ASESU / ASESU AR GYFER DYSGU
ASSESSMENT / ASSESSMENT FOR LEARNING
- 30 DIOGLEU PLANT / POLISI BWLIAN
SAFEGUARDING CHILDREN / BULLYING POLICY
- 31 TREFNIADAETH FUGEIOLIOL / DISGYBLAETH
PASTORAL ARRANGEMENTS / DISCIPLINE
- 32 GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL
EXTRA-CURRICULAR ACTIVITIES
- 33 ADDYSG RHYW / CWYNIION
SEX EDUCATION / COMPLAINTS
- 34 YMWELIADAU / CODI TÂL / TYWYDD GARW
VISITS / PAYMENTS / BAD WEATHER
- 35 ABSENOLDEBAU / ABSENCES
- 36 GWISG YSGOL / SCHOOL UNIFORM
- 37 C.RH.A / P.T.A





WELCOME

Dear Parent / Guardian,

Welcome to Ysgol Gymraeg Aberystwyth. This was the first designated Welsh medium school in Wales which was established in 1939 by Sir Ifan ab Owen Edwards. There were only seven pupils in the school during the early years but by now the school has grown to 400 pupils. The children come from the town of Aberystwyth and the surrounding rural areas.

The school grew consistently during the eighties and nineties as more and more parents saw the value of a Welsh medium education. There is a marked increase in the number of non-Welsh speaking parents that send their children to the school as they appreciate the advantages of bilingualism.

The governors in conjunction with the Ceredigion Education Authority have worked closely to ensure an appropriate building and purposeful resources in order to address the growth in the number of pupils. There are 18 teachers and over 20 support staff working in the school as well as 15 auxiliary staff. The team is enthusiastic and works conscientiously to raise standards and continually improve the school.

We take pride in the school's high standard of achievement and the wide range of extra-curricular activities offered is also important to us, with pupils experiencing success in a variety of fields from the Urdd eisteddfod to sporting activities and art. Our aim is to develop the whole child and to create a safe, happy and Welsh environment so that we can ensure the best of our heritage and culture is safeguarded and developed in the years to come. Read on for more information, or contact us to arrange a visit to experience the ethos of this vibrant and busy school.

R C Williams,
Headteacher

CROESO

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Croeso i chwi i Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Dyma ysgol Gymraeg benodedig gyntaf Cymru a sefydlwyd yn 1939 gan Syr Ifan ab Owen Edwards. Saith o blant oedd yn yr ysgol yn y dyddiau cynnar ond bellach mae'r ysgol wedi tyfu hyd at bedwar cant o ddisgyblion. Daw'r plant atom o dref Aberystwyth ac o'r ardaloedd gwledig cyfagos.

Tyfodd yr ysgol yn gyson yn ystod yr wythdegau a'r nawdegau wrth i fwy a mwy o rieni weld gwerth mewn addysg Gymraeg. Mae yna gynnydd sylweddol yn nifer o rieni di-gymraeg sy'n danfon eu plant i'r ysgol wrth iddynt weld manteision dwyieithrwydd.

Mae'r llywodraethwyr mewn cydweithrediad ag Awdurdod Addysg Ceredigion wedi cydweithio'n glos i sicrhau adeilad addas ag adnoddau pwrpasol er mwyn diwallu'r cynnydd yn niferoedd y disgyblion. Mae yna 18 o athrawon a dros 20ain o gynorthwyyr yn gweithio yn yr ysgol ynghyd a 15 o staff ategol. Mae'r tîm yn frwdfrydig ac yn gweithio'n galed i godi safonau a gwella'r ysgol yn barhaus.

Ymfalchïwn yn safonau cyrhaeddiad uchel yr ysgol, ac mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol hefyd yn bwysig inni, gyda disgyblion yn profi llwyddiant mewn amrywiol feysydd o eisteddfodau'r Urdd i weithgareddau chwaraeon a chelf. Ein nôd yw datblygu'r plentyn cyfan a chreu awyrgylch ddiogel, hapus a chymreig – "fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl y glendïa fu". Darllenwch ymlaen am ragor o wybodaeth, neu cysylltwch i wneud apwyntiad am ymweliad er mwyn i chwi brofi awyrgylch a bwrlwm yr ysgol brysur hon.

R C Williams,
Pennaeth





RHIF DERBYN YR YSGOL : 52

CAPASITI : 370

**NIFER AR Y GOFRESTR :
425 (Ionawr 2018)**

ETHOS A GWERTHOEDD

Mae tri pheth yn bwysig i ni yn yr ysgol;

- Cymreictod
- Parchu ein gilydd
- Gwneud ein gorau glas

CWRICWLWM YR YSGOL

Cyflwynir cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y plentyn. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r dull thematig. Gellir gweld y dogfennau yn ystafell y Prifathro.

SCHOOL ADMISSION NUMBER : 52

CAPACITY: 370

**NUMBER ON ROLL :
425 (January 2018)**

ETHOS AND VALUES

Three things are important to us as a school:

- Appreciation of the Welsh language and culture
- Respecting each other
- Trying our very best


THE SCHOOL CURRICULUM

A broad, balanced curriculum is delivered which enhances the spiritual, moral, mental, social, physical and emotional development of the child. This is achieved mainly by means of a thematic approach. The documents can be viewed in the Headteacher's room.



ENW A CHYFEIRIAD YR YSGOL

Yr Ysgol Gymraeg
Coedlan Plascrug
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1HL

Rhif Ffôn : 01970 617613
Rhif Ffacs : 01970 636742
E-bost : swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
Gwefan yr ysgol : www.ysgolgymraeg.cymru 
Trydar : @YsgolGymraeg

LLYWODRAETHWYR YR YSGOL

Cadeirydd y Llywodraethwyr : Mr Phil Thomas

Gweler rhestr yn amgaaedig o'r Llywodraethwyr a'r Athrawon. Arddangosir yr enwau hefyd ar hysbysfwrdd y cyntedd ac ar wefan yr ysgol. Arddangosir cofnodion pwyllgorau'r Llywodraethwyr hefyd.

MATH O YSGOL


Ysgol Gynradd Gymraeg Benodedig 3-11oed.

SAFLE'R YSGOL

Saif yr Ysgol ar gyrion tref Aberystwyth, rhyw hanner milltir i'r dwyrain, ym Mhlascrug lle mae golygfeydd godidog. Agorwyd yr Ysgol yn 1989 a bellach mae dros 400 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r estyniad moethus wedi sicrhau fod yna le addas ar gyfer dau ddosbarth i bob blwyddyn. Clustnodwyd lle chwarae caled a meddal i'r Meithrin a chwaraele a chae eang i weddill yr ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraethwyr er mwyn sicrhau fod amgylchedd yr ysgol yn sbarduno brwdfrydedd plant ac yn adlewyrchu barn y disgyblion.

SCHOOL NAME AND ADDRESS

Yr Ysgol Gymraeg
Coedlan Plascrug
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1HL

Phone Number : 01970 617613
Fax Number : 01970 636742
E-mail : swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
School website : www.ysgolgymraeg.cymru 
Twitter: @YsgolGymraeg

SCHOOL GOVERNORS

Chair of Governors : Mr Phil Thomas

Please find enclosed a list of Governors and Teachers. Their names are also displayed on the noticeboard in the foyer and on the school's website. Minutes of Governors' meetings are also displayed.

TYPE OF SCHOOL

Designated Welsh Primary School 3-11 years of age.

THE SCHOOL SITE

The school is located on the outskirts of Aberystwyth, about half a mile to the east, in Plascrug, and enjoys splendid views. The school was opened in 1989, and by now there are over 400 pupils on the register. The luxurious extension has ensured that there is adequate space for two classes in each year group. Hard and soft playing areas have been allocated for the Nursery Unit, and an extensive playground and playing fields for the rest of the school. The School Council works closely with the Governors to ensure that the school's environment encourages the children's motivation and reflects pupils' opinions.

AMCANION YR YSGOL

Pwrpas yr ysgol yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau a fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu'n bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau. Bydd y sefyllfaoedd a'r adnoddau hyn yn darparu ar gyfer pob plentyn yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn eu cymhwyso i fod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelodau a fydd yn gallu cyfrannu a derbyn oddi wrthi gan fyw mewn heddw a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Golyga hyn:

- Alluogi pob plentyn i ddatblygu'i hun i'w lawn potensial.
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig.
- Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

Amcanion Cyffredinol yr Ysgol:

- Dylai pob plentyn deimlo'n hapus a diogel mewn awyrgylch gartrefol.
- Dylai pob plentyn gael y cyfle i ddatblygu hyd eithaf ei allu ym mhob agwedd o'r cwricwlwm.
- Dylai'r ysgol gyflwyno addysg sy'n ystyrlon ac yn berthnasol i brofiad disgybl yn y gymuned
- Dylai'r ysgol hybu a datblygu dwyieithrwydd.
- Dylai'r ysgol gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl.
- Dylai'r ysgol hybu cysylltiad a chydweithrediad rhieni.
- Dylai'r ysgol feithrin parch at eiddo ac at bersonau eraill.
- Dylai'r ysgol ysgogi cysylltiad â'r gymuned.
- Dylai'r ysgol bwysleisio ymddygiad, cwrteisi ac ymddangosiad.
- Dylai'r ysgol feithrin athrawon ymroddgar a brwdfrydig.





AIMS OF THE SCHOOL

The school's aim is to create situations and to supply resources which will allow each child to develop an integral personality and to develop and utilise his or her talents. These situations and resources will provide for each child, according to age, ability and interest, and will help them become responsible and participating members of a bilingual society – members who can contribute and gain from their society, co-existing in a spirit of peace and friendship with his/her co-citizens.

This involves:

- Enabling every child to develop to his or her full potential.
- Ensuring that every child is introduced to the heritage of Wales.
- Providing every child with the opportunity to develop fully in a rapidly changing society.

General aims of the school:

- Every child should feel safe and content in a homely atmosphere.
- Every child should be given the opportunity to develop to his or her full potential in all aspects of the curriculum.
- The school should provide a meaningful education, relevant to the child's experience in the community.
- The school should promote and develop bilingualism.
- The school should offer every pupil an equal opportunity.
- The school should promote contact and co-operation with parents.
- The school should encourage a respect for property and for other people.
- The school should stimulate contact with the community.
- The school should place an emphasis on good behaviour, courtesy and appearance.
- The school should foster dedicated and enthusiastic teaching staff.

CYFLEOEDD CYFARTAL

Mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofawyr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol, ni waeth beth yw eu hanabledd, hil, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Rydym yn ceisio datblygu diwylliant o gynhwysiad ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol i deimlo'n falch o'i hunaniaeth, a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Caiff cyflawniad disgyblion ei fonitro, a byddwn yn defnyddio'r data hwn i gefnogi disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio ac ystrydebau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth credwn fod amrywiaeth yn gryfder y dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n addysgu, ac yn dysgu yma, ac yn ymweld â'r ysgol.

DISGYBLION SYDD AG ANABLEDDAU

Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni sydd ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Cysyllter â'r Pennaeth am ragor o fanylion.

Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol Gymraeg. Mae ystafelloedd pwrpasol ar gael yn yr ysgol i hyrwyddo anghenion disgyblion sydd ag anableddau.

EQUAL OPPORTUNITIES

The school has a Strategic Equality Plan that ensures equality of education and opportunity for all pupils, staff, parents and carers receiving services from the school, irrespective of disability, race, gender, age, sexual orientation, religion or belief, gender reassignment, pregnancy & maternity, marriage and civil partnership. We aim to develop a culture of inclusion and diversity in which all those connected to the school feel proud of their identity and able to participate fully in school life.

The achievement of pupils will be monitored and we will use this data to support pupils, raise standards and ensure inclusive teaching. We will tackle discrimination by the positive promotion of equality, challenging bullying and stereotypes and creating an environment which champions respect for all. At Ysgol Gymraeg Aberystwyth we believe that diversity is a strength, which should be respected and celebrated by all those who learn, teach and visit here.

PUPILS WITH DISABILITIES

The school's layout ensures easy access to pupils and parents with disabilities. Special arrangements are made between school and home when a pupil with disabilities or Additional Learning Needs starts at the school. Please contact the Headteacher for more information.

The school is sensitive towards the needs of pupils with disabilities and makes every effort to ensure that they are included in all aspects of Ysgol Gymraeg's life and work. We have purposeful rooms at the school to provide for the needs of pupils with disabilities.





ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Cyflogir athrawes Anghenion Dysgu Ychwanegol llawn amser i gynnig help i'r disgyblion sydd ag anghenion Dysgu Ychwanegol. Rhoddir sylw unigol/grŵp bychan o fewn y dosbarth gan yr athrawon dosbarth ynghyd â chymorth penodol gan yr athrawes gynnal. Os oes angen mwy o sylw unigol cyfeirir y plentyn i sylw Adran Gwasanaeth Seicolegol y Sir gyda'r posibilrwydd o drefnu darpariaeth arbenigol.

POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Ein nod yw datblygu dulliau o asesu manwl er mwyn adnabod anghenion penodol pob plentyn a threfnu rhaglen waith berthnasol ar ei gyfer. Mae'r ysgol hefyd yn ystyried disgyblion talentog neu sydd â gallu arbennig fel unigolion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Rhoddir enw pob plentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Gofrestr A.D.Y. Yr ysgol sy'n gyfrifol am leoli plant ar y camau a nodir yng 'Nghod Ymarfer Anghenion Dysgu ychwanegol Cymru' ac am fonitro, adolygu ac am ddyrannu adnoddau ar eu cyfer o gyllid yr ysgol ac o'r arian a ddaw law yn llaw â lleoliad plentyn yn y cyfnodau hyn yn yr Archwiliad Blynyddol. Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am roi Datganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol i blentyn.

Mae'n bolisi gan yr ysgol i gysylltu â rhieni unrhyw blentyn pan fydd yn cael ei osod mewn unrhyw gyfnod a/neu cyn iddo gael ei gyfeirio am asesiad arferol neu statudol. Cedwir mewn cysylltiad ynglŷn â chynnydd y plentyn a gwahoddir y rhieni i bob adolygiad. Gellir gweld copi llawn o'r polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol.

ADDITIONAL LEARNING NEEDS

A full time Additional Learning Needs teacher is employed to assist those pupils who have Additional Learning Needs. Individual attention or small group attention is given within the class by the class teacher as well as attention by the support teacher. If extra individual attention is required, the child is then referred to the County Psychological Service Department, where specialist provision could be arranged.

ADDITIONAL LEARNING NEEDS POLICY

Our aim is to develop a comprehensive and detailed means of assessment in order to identify each pupil's specific needs and to devise a work schedule that is relevant to that pupil. The school also considers talented pupils or those with a special ability as individuals with Additional Learning Needs.

Every child with Additional Education Needs is included in the Additional Needs Register. It is the school's responsibility to place children in the stages described in the 'Welsh Additional Learning Needs Code of Practice', and to monitor, review and allocate resources for this purpose out of the school budget and the funds which come with the placement of children in these stages in the Annual Inspection. It is the Authority's responsibility to provide a child with a Statement of Additional Educational Needs.

It is the school's policy to consult with parents when a child is placed in any stage and/or referred for a usual or statutory assessment. We keep parents fully informed of any improvement in the child, and they are invited to every review. A full copy of the Additional Learning Needs policy can be seen at the school.

CERDDORIAETH

Derbynnir swm o arian ar gyfer cyflogi athrawon teithiol. Yn dilyn prawf clust cynigir hyfforddiant i'r rhai hynny sy'n debygol o elwa a chael cefnogaeth gartref. Trefnir hyfforddiant yn yr ysgol. Codir tâl am y gwersi yn unol â pholisi'r ysgol.

Rhoddir cyfle i bob plentyn yng Nghyfnod Allweddol 2 ddysgu i chwarae recorder ac i gael gwersi Cerddoriaeth sy'n cynnwys canu, cyfansoddi a gwaith offerynnol. Bydd cyfle i rai ymuno â Cherddorfa'r Ysgol, y Cylch a Cheredigion.

Bu lle amlwg i waith lleisiol a chanu corawl ym mywyd disgyblion yr Ysgol Gymraeg ers blynyddoedd maith. Enillodd y Côr a'r Côr Cerdd Dant yn gyson yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Cynhelir Cyngherddau Nadolig a haf yn y Neuadd Fawr le caiff pob disgybl y cyfle i ymddangos ar y llwyfan.



MUSIC

An allocated sum of money is received to employ peripatetic teachers. Following aural tests, training is offered to those who are likely to benefit and to receive support at home. Training is arranged at the school. A fee is payable for the lessons in accordance with the school's policy.

Every child in Key Stage 2 is given an opportunity to learn to play the recorder and to have music lessons, which include singing, composition and instrumental work. Some are given the opportunity to join the School, Area and Ceredigion Orchestras.

For many years prominence has been given to vocal work and choral singing in the Ysgol Gymraeg pupil's school life. The Choir and the 'Cerdd Dant' Choir have been regular winners at the National Urdd Eisteddfod.

Cymreictod Parchu ein gilydd Gwneud ein gorau glas

CELFYDDYDAU

Mynegiant yw celfyddyd o ymdrech dyn i ganfod ceinder y byd a'i bethau trwy ddefnyddio ei synhwyrâu i sylwi, i ddychmygu, i ryfeddu ac i greu. Credwn yn gryf fod gan y celfyddydau swyddogaeth bwysig iawn yn natblygiad y plentyn a byddwn yn ei ysgogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol, drama, symud a dylunio, crefft a thechnoleg. Trwy synio am y celfyddydau fel elfen integreiddiedig yn y diwrnod ysgol gellir cynnig i blentyn gyfle i roi ei ddychymyg, ei wreiddioldeb a'i chwilfrydedd ar waith.

Cefnogir gweithdai Canolfan y Celfyddydau yma yn Aberystwyth.

ASTUDIAETHAU AMGYLCHEDDOL

Y mae pawb ohonom yn rhan o gymdeithas ac amgylchfyd sy'n gyd-ddibynnol ac felly y mae ymwybyddiaeth o'r gymdeithas honno – ei nodweddion a'i hanghenion – a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchfyd yn rhan naturiol o broses datblygiad y plentyn. Yn yr ysgol hon, byddwn yn canolbwyntio ar bedair agwedd yr ydym yn ceisio'u datblygu yn y plentyn.

AGWEDDAU CYMDEITHASOL

Datblygu ymwybyddiaeth o elfennau penodol sy'n rhan o wead cymdeithas a'u cyd-ddibyniaeth.

AGWEDDAU HANESYDDOL

Datblygu ymdeimlad o hanes ar sail tystiolaeth leol a meithrin diddordeb plentyn yn nylanwad y gorffennol ar ddyn.

AGWEDDAU BYD NATUR

Ysgogi diddordeb y plentyn yn holl agweddau byd natur a meithrin ei allu i'w werthfawrogi a'i barchu, gan ei wneud yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb tuag ato.

THE ARTS

The arts are an expression of man's perception of the beauty of the world through the utilisation of his senses to observe and to imagine, to marvel and to create. We hold a firm belief that the arts are highly important to a child's development and we will stimulate him or her to take part in musical, dramatic, movement and design, craft and technological activities. By encompassing the arts as an integrated element of the school day we provide children with an opportunity to exercise their imagination, their originality and their curiosity.

We support the workshops held by the Aberystwyth Arts Centre.

ENVIRONMENTAL STUDIES

We are all part of a society and environment which are interdependent, and therefore, an awareness of that society, its qualities and its needs, and a knowledge and understanding of the environment are a natural part of the child's development process. At Ysgol Gymraeg Aberystwyth, we concentrate on developing four aspects we hope to develop within the child.

SOCIAL ASPECTS

To develop an awareness of specific elements which form part of the fabric of society and their interdependence.

HISTORICAL ASPECTS

To develop an awareness of history based on local evidence, and to encourage children's interest in the way in which the past has influenced the present.

ASPECTS OF NATURE

To stimulate the children's interest in all aspects of the natural world and to encourage their ability to appreciate and respect it, and to be aware of their responsibility for it.

POLISI DERBYN YSGOL GYMRAEG ABERYSTWYTH

Mae gan bob ysgol rif derbyn. Rhif derbyn yr ysgol hon yw 52. Nid oes trosglwyddiad awtomatig o'r Meithrin i'r Derbyn, a gan mai Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion yw'r Awdurdod Derbyn, bydd yr Awdurdod yn ystyried ceisiadau. Os digwydd bod mwy wedi dewis anfon eu plant i'r ysgol nag sydd o le ar eu cyfer (h.y. mwy na 60) ystyrir ceisiadau yn unol â'r meini prawf canlynol a restrir yn nhrefn blaenoriaeth:

- nifer y plant y gellir eu derbyn i'r ysgol (h.y. rhif derbyn yr ysgol ar gyfer bob blwyddyn ysgol);
- a yw'r rhant wedi mynegi'i ddewis blaenoriaeth yn ysgrifenedig;
- yr ardal ddaearyddol a wasanaethir fel arfer gan yr ysgol (h.y. dalgylch diffiniedig). Diffinnir dalgylch Ysgol Gymraeg Aberystwyth fel yr ardaloedd hynny a wasanaethir gan ysgolion Plascrug, Llwyn yr Eos, Cwmpadarn, Comins Coch a Phadarn Sant yn ôl yr Awdurdod;
- a oes gan y darpar ddisgybl frawd neu chwaer yn yr ysgol.

Er mwyn gwneud cais am le yn yr ysgol rhaid felly cyflwyno ceisiadau i Gyngor Sir Ceredigion drwy'r ysgol cyn 30ain o Ebrill bob blwyddyn. Ni chaniateir trefnu rhestr aros. Bydd y ffurflenni pwrpasol ar gael yn yr ysgol neu gan y Swyddfa Addysg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion sef <http://www.ceredigion.gov.uk/>

DERBYN PLANT

Derbynnir plant i'r Adran Feithrin yn rhan-amser yn ystod y flwyddyn ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Estynnir gwahoddiad i rieni i gwrdd â staff yr uned yn ystod y tymor cyn bod eu plant yn cychwyn. Cyn i'r plant ddod yn llawn amser (y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed) ystyrir eu cais gan Bwyllgor Derbyniadau yr ysgol; sef y Pennaeth, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Corff Llywodraethol. Ystyrir y ceisiadau yn unol â chanllawiau sydd yn y polisi derbyn.

Trosglwyddir y plant 11 oed naill ai i Ysgol Gyfun ddwyieithog Penweddig neu Ysgol Gyfun Penglais Aberystwyth. Datblygwyd cysylltiadau gweinyddol sefydlog rhwng yr ysgolion a chaiff y plant gyfle i ymweld â'r ysgolion uwchradd cyn eu trosglwyddo.



YSGOL GYMRAEG ABERYSTWYTH ADMISSIONS POLICY

All individual schools have an admissions number. For this school the admissions number is 52. Transfer from Meithrin (Nursery) to Derbyn (Reception) is not automatic and since the Ceredigion Education Authority is the Admissions Authority, the Authority considers all applications. If more people choose to send their children to the school than there are places available for them (i.e. more than 60), the following criteria shall be considered in order or priority:

- the number of children we're able to accept at the school (i.e. the school's admissions number for each school year).
- whether the parents have indicated their priorities in writing.
- the usual geographical area of the school (i.e. the defined catchment area). Ysgol Gymraeg Aberystwyth's catchment area is defined (according to the Local Education Authority) as the area serving Plascrug, Llwyn yr Eos, Cwmpadarn, Comins Coch and St Padarn's School.
- whether the prospective pupil has any siblings at the school.

Therefore to apply for a place at the school, applications must be submitted to Ceredigion County Council, through the school, before 30th April each year. A waiting list cannot be compiled. The appropriate forms will be available at the school or from the Education Office. For more information visit Ceredigion County Council's website: <http://ceredigion.gov.uk/>

ADMISSION OF CHILDREN

Children are admitted into the Nursery Unit on a part time basis during the year following their third birthday. Parents are invited to meet staff at the Unit during the term before their children begin. Before the children become full time (the term following their fourth birthday) their application is considered by the School's Admissions Committee, i.e. the Headteacher, the Chair and Vice-Chair of the Governing Body. The applications are considered in accordance with the guidelines of the admissions policy.

The children are transferred at 11 years either to Ysgol Gyfun Penweddig or Penglais Comprehensive School, Aberystwyth. There are established administrative links between the two schools and children are given the opportunity to visit the schools prior to their transfer.





IECHYD A DIOGELWCH

Cymerir pob gofal posibl am ddiogelwch y plant tra byddant yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, yna os fydd angen eir â'r plentyn i Adran Ddamweiniau Ysbyty Bronglais.

Rhoddir moddion i blentyn mewn achosion arbennig yn unig – a hynny ar ôl derbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig gan riant.

Ni chaniateir i blentyn adael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd. Os fydd newid yn y modd y bydd plentyn yn mynd adref, gofynnir i'r rhieni ddweud wrth y Prifathro neu athro'r plentyn o flaen llaw am y trefniadau a wnaed.

Mae'r ysgol yn arolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer disgyblion a staff yn gyson. Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r brif fynedfa cyn cael mynediad i'r ysgol. Rhoddir cerdyn adnabod i ymwelwyr gan y Swyddog Gweinyddol. Os fydd ymwelwyr yn ymddwyn yn anaddas tuag at ddisgybl neu aelod o staff yna gofynnir iddynt adael campws yr ysgol ar unwaith a chysylltir â'r heddlu pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol system larwm lladron a cheir 'ymarferion tân' yn dymhorol.

HEALTH AND SAFETY

Every possible care is taken to ensure children's safety whilst they are at the school. If a child is taken ill, or involved in an accident, the parents are contacted and, if needed, the child will then be taken to the Casualty Department at Bronglais Hospital.

Medicine will be administered to children in special instances only and on the receipt of written instructions from the parent.

No child is allowed to leave the school early without permission. If there is a change to normal arrangements, the parents are requested to inform the Headteacher or the child's class teacher in advance.

The school regularly reviews health and safety arrangements for pupils and staff. Every visitor must visit the main entrance before gaining access to the school. Visitors are given an identification card by the Administrative Officer. If a visitor acts inappropriately towards a pupil or member of staff then they will be asked to leave the school campus immediately and the police informed if needed. The school has a burglar alarm system and fire drills are held each term.

CYNLLUN TEITHIO I'R YSGOL

Mae'r ysgol yn annog rhieni i gerdded, beicio neu i rannu ceir wrth ddod a'u plant i'r ysgol. Erfynnir am gydweithrediad pawb er diogelwch y plant. Mae Pwyllgor Eco'r ysgol yn pwysleisio'r angen i rieni i feddwl am yr amgylchedd wrth deithio i'r ysgol.

Cyfyngir parcio ar hyd y ffordd sy'n arwain i'r ysgol i rieni'r Uned Feithrin yn unig. Gall y gweddill adael eu ceir ym maes parcio'r Ganolfan Hamdden neu yn y maes parcio ger Canolfan Mudiad yr Ysgolion Meithrin. Neilltuwyd parcio y tu allan i'r brif fynedfa i fysiau, tacsis a pharcio i'r anabl. Ni chaniateir i'r rhieni barcio ym maes parcio'r staff. Dylid gyrru'n ofalus ac yn bwylllog ger safle'r ysgol.

TRAVELLING TO SCHOOL SCHEME

The school encourages parents to walk, cycle or share lifts when bringing their children to school. We ask for everyone's co-operation in ensuring the children's safety. The school's Eco Committee stresses the need for parents to think of the environment when considering ways of travelling to school.

Parking along the road leading to the school is restricted to Nursery Unit parents only. Other parents can leave their cars in the Leisure Centre's car park or in the car park by the Mudiad Meithrin. Parking outside the main entrance has been set aside for buses, taxis and the disabled. Parents are not permitted to park in the staff car park. Everyone should drive carefully and sensibly near the school site.



PARATOI AR GYFER YR YSGOL

Rydym yn awyddus i'ch plentyn fod yn hapus yn ein plith. Mewn awyrgylch hapus a chartrefol yn unig y bydd y plentyn yn datblygu a gweithio hyd eithaf ei allu.

Sylwadau / Cynigion i rieni i'w dilyn fel paratoad i'r ysgol

- Peidiwch â 'siarad lawr' â'r plentyn.
- Bydd o gymorth i'r plentyn petai'r rhieni yn siarad a thrafod ymweliadau a sgwrsio â nhw yn gyson.
- Edrych a thrafod rhaglenni teledu dethol gyda'r plant.
- Anogir rhieni i ddarllen i'r plant yn ddyddiol a chwarae gyda nhw gan drin a thrafod wrth siopa a choginio.
- Nid oes angen gwneud gwaith ffurfiol ond helpu ymwybyddiaeth plentyn o rif trwy ddysgu rhigyau syml iddo.
- Gwnewch ddefnydd o'r grŵp Meithrin Lleol er mwyn paratoi eich plentyn yn gymdeithasol ac yn ieithyddol ar gyfer addysg Gymraeg.
- Helpwch eich plentyn i gyflawni tasgau fel gwisgo, clymu carrai esgid, mynd i'r toiled, defnyddio cyllell a fforc a thacluso.
- Datblygwch weithgareddau sy'n hybu sgwrs a hunanhyder.
- Helpwch eich plentyn i ddod yn gyfarwydd â siâp ei enw/henw.
- Peidiwch â defnyddio prif lythrennau e.e. Catrin nid CATRIN.

PREPARING FOR SCHOOL

Rydym yn awyddus i'ch plentyn fod yn hapus yn ein plith. Mewn awyrgylch hapus a chartrefol yn unig y bydd y plentyn yn datblygu a gweithio hyd eithaf ei allu.

Points / Guidelines for parents to follow as a preparation for school

- Don't 'talk down' to your child. It will be helpful for the child to discuss visits and parents should converse with them regularly.
- Watch and discuss select television programmes together.
- Parents are encouraged to read to their children every day and to play with them and to discuss with them when shopping and cooking.
- There is no need to do any formal work as such but a child's awareness of numbers can be enhanced by teaching
- Make use of your local Nursery group so that you can prepare your child socially and linguistically for Welsh medium
- Help your child with tasks such as dressing, tying shoe laces, going to the toilet, the use of a knife and fork and tidying up.
- Develop activities which encourage conversation and self-confidence.
- Help your child to become familiar with the shape of his/her name.
- Do not use capital letters e.g. Catrin not CATRIN.

CLWB BRECWAST

Mae'r Clwb Brecwast ar agor yn foreol o 0815 tan 0845 ar gyfer plant 4 oed ac hŷn. Yn ystod y cyfnod hwn gall y plant fynd i'r Neuadd i fwynhau tost a sudd yn ogystal â ffrwythau. Sicheir goruchwyliaeth o'r plant yn y Neuadd ac ar yr iard yn ystod y cyfnod hwn gan barhau hyd at amser cofrestru am 9 o'r gloch.

CINIO YSGOL

Coginir y cinio yng nghegin yr ysgol. Caiff y plant ddod â brechdanau. Ni chaniateir poteli gwydr. Arolygir y plant yn ystod yr awr ginio gan gynorthwywyr.

Cesglir yr arian cinio gan Gynorthwywraig Glerigol pob bore Llun neu ddiwrnod cyntaf wythnos addysgol. Gall rhai teuluoedd hawlio cinio di-dâl. Ceir ffurflenni cais o'r ysgol.

Mae'r ysgol yn aelod o'r 'Rhwydwaith Ysgolion Iach' ac yn rhoi pwyslais mawr ar fwyta'n iach ac ymarfer rheolaidd.

BREAKFAST CLUB

The Breakfast Club is open daily between 0815 and 0845 for children 4 years and older. During this period, children are able to go to the Hall to enjoy some toast and juice as well as fruit. Children are supervised in the Hall and on the yard during this period until registration at 9 o'clock.

SCHOOL LUNCHES

Lunch is cooked in the school kitchen. Children may bring sandwiches. Glass bottles are not permitted. The children are supervised at lunchtime by assistants.

The dinner money is collected by the school secretary each Monday morning or on the first day of the school week. Some families are eligible for free lunches. Application forms are available from the school.


The school is a member of the 'Healthy Schools Network' and puts great emphasis on healthy eating and regular exercise.



RHIFEDD / MATHEMATEG

Mae syniadau a thechnegau mathemategol yn rhan hanfodol o fywyd pob dydd ac yn cyfrannu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas.

Amcenir yn yr ysgol at ddatblygu agwedd bositif tuag at fathemateg fel pwnc diddorol i'w fwynhau. Ceisiwn ddatblygu yn y plentyn y gallu i feddwl yn glir ac yn rhesymegol gyda hyder ac ystwythder fydd yn arwain at y ddawn i fynegi syniadau'n glir, i drafod y pwnc gyda sicrwydd ac i ddefnyddio iaith fathemategol a'i gymhwyso i sefyllfaoedd yn y cartref yr ysgol a'r gymdeithas.



NUMERACY / MATHEMATICS

Mathematical ideas and techniques are an essential part of everyday life and contribute considerably to our understanding of the world around us.

The school aims to develop a positive attitude to mathematics as an interesting subject to be enjoyed. We endeavour to develop in the child the ability to think clearly and logically with confidence and adaptability, skills which will allow him/her to express ideas lucidly, to discuss a subject with confidence and to use mathematical language when applying skills and knowledge to situations at home, at school and in society.

ORIAU'R YSGOL

Bore: 9.00 - 12.00
Amser Chwarae: 10.30 - 10.45
Amser Cinio: 12.00 - 1.00
(11.45 - 1.00 Cyfnod Sylfaen)

Prynhawn: 1.00 - 3.30
Amser Chwarae: 2.15 - 2.30

Bydd gofal am y plant 15 munud ar ddechrau ac ar ddiwedd dydd. Gwerthfawrogir prydlondeb er hwylustod i bawb. Arddangosir a dosberthir manylion ynglŷn â gweithgareddau a gwyliau i'r rhieni ar ddechrau pob tymor.

CYTUNDEB CARTREF / YSGOL

Mae gan yr ysgol 'Gytundeb Cartref / Ysgol' sy'n nodi yr hyn a ddisgwylir gan yr ysgol o safbwynt ymrwymiad rhieni / gwarcheidwaid a disgyblion i gefnogi'r ysgol ynghyd ag ymrwymiad yr ysgol i gydweithio a darparu'r gwasanaeth gorau i rieni / gwarcheidwaid a disgyblion.

SCHOOL HOURS

Morning: 9.00 - 12.00
Playtime: 10.30 - 10.45
Lunchtime: 12.00 - 1.00
(11.45 - 1.00 Foundation Phase)

Afternoon: 1.00 - 3.30
Playtime: 2.15 - 2.30

Children will be supervised for 15 minutes at the beginning and end of the day. Punctuality is appreciated for everyone's convenience. Details of holidays and activities are displayed and distributed to parents at the beginning of each term.

HOME / SCHOOL AGREEMENT

The school has a 'Home / School Agreement' which notes what we expect in terms of parent / guardian and pupil engagement to supporting the school, as well as the school's engagement to providing the best service for parents / guardians and pupils.



“Yr hyn y gall y plentyn wneud gyda chymorth heddiw, gall wneud ei hun yfory”



GWASANAETHAU CEFNOGOL

Bydd y nyrs ysgol yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol.

Gellir cael sgwrs gyda'r nyrs ar unrhyw adeg drwy ffonio 01970 635337.

Gellir cyfeirio plentyn i sylw'r Therapydd Iaith a Lleferydd ar gais y Prifathro.

Gofynnir yn garedig i rieni hysbysu'r ysgol am unrhyw anabledau a all amharu ar ddatblygiad y plentyn.

Cyflwynir cyfres o wersi Medrusrwydd Beicio i'r plant hŷn.

SUPPORT SERVICES

The school nurse visits the school from time to time.

It is possible to talk to the nurse at any time by phoning 01970 635337.

A child may be referred to the Speech and Language Therapist at the Headteacher's request.

Parents are kindly requested to inform the school of any physical disability which may impair the development of their child.

The older children are given a series of Cycling Proficiency lessons.

TREFNIADAETH DYSGU AC ADDYSGU

O fewn yr ystafell ddosbarth trefnir y gwaith gan yr athro/athrawes gyda chymorth o bryd i'w gilydd gan arbenigwr/wragedd mewn rhai pynciau.

Ym mhob adran rhennir y plant yn ôl eu hoedran, mewn grwpiau cymysg eu gallu. Ar adegau mae'r ysgol y grwpio yn ôl gallu er mwyn sicrhau y ddarpariaeth orau ar gyfer disgyblion o bob gallu. Fel arfer trosglwyddir plant o Adran y Meithrin yn 4 oed a'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 lau pan fyddant yn 7 oed.

GWAITH CARTREF

Yn y Cyfnod Sylfaen, rhoddir tasgau yn wythnosol i gefnogi'r dysgu adref. Caiff plant fynd â llyfrau darllen er mwyn ymarfer darllen yn eu cartrefi. Ceir llyfrgelloedd yn yr unedau dysgu. Anogir plant yng Nghyfnod Allweddol 2 i fenthycu llyfrau yn gyson.

Caiff plentyn Cyfnod Allweddol 2 waith cartref yn fwy rheolaidd. Pwrpas hyn yw atgyfnerthu'r gwaith a gyflawnwyd yn yr ysgol. Gofynnir i rieni annog eu plant i ddarllen yn gyson ac i wneud eu gwaith cartref yn brydlon a chymen. Mae croeso i ddisgyblion gwblhau eu gwaith yn ddigidol ac e-bostio'r cynnwys at yr athrawon dosbarth.

TEACHING AND LEARNING ORGANISATION

The class teacher is responsible for organising work within the classroom, with occasional assistance by specialists in some subjects.

In each section the children are divided into groups of mixed ability according to age. At times the school groups pupils according to ability in order to ensure the best provision for pupils of all abilities. Children are usually transferred from the Nursery at 4 years and from the Foundation Phase to Key Stage 2 at 7 years.

HOMEWORK

Children in the Foundation Phase are given weekly tasks to support the learning at home. They may also take books home to practise reading. There are libraries in the teaching units. Children in Key Stage 2 are encouraged to borrow books on a regular basis.

Children in Key Stage 2 are given homework more frequently. The aim is to reinforce the work introduced at school. Parents are requested to encourage their children to read regularly and to do their homework promptly and neatly. Pupils are also welcome to complete their work digitally and e-mail the content to their class teachers.



TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Mae'r Datblygiadau diweddaraf ym myd addysg wedi rhoi statws uchel i Dechnoleg Gwybodaeth, ynghyd â disgrifiad clir o natur y pwnc. Nodweddir gallu Technoleg Gwybodaeth gan allu i ddefnyddio offer a ffynonellau gwybodaeth T.G. yn effeithiol i ddadansoddi, prosesu a chyflwyno gwybodaeth ac i fodelu, mesur a rheoli digwyddiadau allanol. Yn yr Ysgol Gymraeg rhoddir y pwyslais ar ddatblygu T.G. drwy bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, a gwelir y cyfrifiadur fel 'arf trawsgwricwlaidd'. Mae'r ysgol yn diweddarau adnoddau T.G.Ch yn gyson ac mae hyn yn cynnwys cysylltiad diwifr drwy'r ysgol.

INFORMATION TECHNOLOGY AND COMMUNICATION

Recent developments have given Information Technology an important status, along with a clear description of the nature of the subject. An ability in Information Technology means an ability to use I.T. equipment and sources effectively in order to analyse, process and present information and to model, measure and control external events. At Ysgol Gymraeg Aberystwyth, emphasis is placed on developing I.T. across the spectrum of National Curriculum subjects. Computers are considered as trans-curricular pieces of equipment. The school has continually improved I.T. resources and this includes a wireless connection throughout the school.

ATHRAWON A STAFF

Prif adnoddau pob ysgol yw ei hathrawon a'u gallu i greu a chynnal perthynas hapus â'r plant. Yr ydym yn ffodus i feddu ar athrawon sy'n rhoi pwyslais ar ansawdd y berthynas rhwng athro/athrawes a disgybl er mwyn hyrwyddo datblygiad academiaidd a phersonol y plentyn. Credwn mai'r athro/athrawes sy'n llwyddo yw'r athro/athrawes a ddaw i adnabod ei (d)disgyblion fel unigolion, sy'n ymwybodol o'u bywydau y tu allan i'r ysgol ac sy'n barod bob amser i barchu a rhoi bri ar eu profiadau a'u hymdrechion i ddygymod â nhw. Bydd yn awyddus i hyrwyddo'u bwriadau fel unigolion.

“Meithrin dinasyddiaeth, bywyd Cristnogol a chariad at brydferthwch ydyw uchelgais yr ysgol hynny ar sail diwylliant Cymru.”

Dyma oedd nod Miss Nora Isaac, prifathrawes gyntaf Ysgol Gymraeg Aberystwyth wrth addysgu plant dros hanner can mlynedd yn ôl a dyma mewn difrif yw seiliau addysg yr ysgol heddiw.

Mae'r Ysgol Gymraeg yn gyfoed ag addysg Gymraeg ledled Cymru, gan mai hon oedd yr Ysgol Gymraeg swyddogol gyntaf. Yn ogystal ag anelu at y safonau addysgiadol uchaf, bu'r Ysgol Gymraeg ar hyd yr adeg yn trwytho'r plant yn y diwylliant Cymreig a enillwyd gwobrau lu yn Eisteddfodau'r Urdd am ganu a cherdd dant, am ganeuon actol a bandiau taro, am ddramâu ac am adrodd. Bu nifer o blant yr ysgol yn aelodau o gerddorfa'r sir hefyd, a mawr yw'r brwdfrydedd ar y meysydd chwarae ac mewn mabolgampau. Llwyddwyd yn ddiweddar i ennill gwobr genedlaethol 'Sportmarc' am ragoriaeth mewn addysg gorfforol. Enillwyd llawer o gystadlaethau cenedlaethol gan ddisgyblion yr ysgol ar hyd y blynyddoedd - y cyfan yn arwyddo bod yr ysgol wedi, ac yn llwyddo i gynnig addysg gyflawn, werthfawr i'r plant.

Gyda'r ysgol yn rhan o gampws addysg a hamdden Plascrug edrychir ymlaen at ddyfodol llewyrchus wrth i'r traddodiad a sefydlwyd dros drigain mlynedd yn ôl barhau ac ehangu.

TEACHERS AND STAFF

The main resource in any school is its teaching staff, and their ability to create and maintain a happy relationship with the children. We are fortunate in having teaching staff who believe that the quality of the relationship between teacher and pupil enhances the child's academic and personal development. We believe that a successful teacher will get to know pupils as individuals, and be aware of their lives outside the school, and will be at all times prepared to respect and commend their experiences and endeavours in coming to terms with the world. A successful teacher will be eager to promote the children's individual goals in life.

“The school's aim is to foster citizenship, a Christian way of life and a love of beauty, based on the culture of Wales.”

This was the ambition of Miss Norah Isaac, Ysgol Gymraeg Aberystwyth's first headmistress, when she first taught children at the school over seventy five years ago, and this remains the foundation of the education provided by the school today.

Ysgol Gymraeg Aberystwyth is as old as Welsh medium education throughout Wales, since Ysgol Gymraeg Aberystwyth was the first official Welsh medium school. As well as striving for the highest academic standards, Ysgol Gymraeg has continuously immersed its pupils in Welsh culture, and has won innumerable prizes in the Urdd Eisteddfod for singing, singing to harp accompaniment (cerdd dant), action songs, percussion bands, drama and recitation. A number of pupils have also been members of the county orchestra and there has always been an enthusiastic approach to sports and athletics. The school has recently won the national 'Sportsmark' award for excellence in physical education. Over the years, pupils from the school have won many national competitions, all of which demonstrate the way in which the school has, and continues to provide a full and valuable education.

As the school is now part of the Plascrug education and leisure campus, we look forward to further success in the future, as a tradition established seventy five years ago continues to flourish and expand.





ADDYSG GORFFOROL A CHADW'N IACH

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd sy'n symblyiad ac yn ddiogel i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol wrth ddatblygu sgiliau corfforol a chadw'n iach. Darperir gweithgareddau sy'n rhoi mwynhad i'r disgyblion wrth ddiwallu eu hanghenion creadigol a ffitrwydd. Byddwn yn dysgu a darparu cyfle i ymarfer a gwella ar sgiliau sy'n berthnasol i'r gweithgaredd.

Yr ydym hefyd yn ceisio datblygu ymwybyddiaeth gymdeithasol ynghyd â hyfforddiant cymdeithasol drwy fynegiant unigol. Ceisir hybu hyder trwy weithgaredd corfforol a chreu ymwybyddiaeth a phwysigrwydd iechyd wrth ymarfer. Mae dewisiadau bwyd a dysgu am y corff yn elfennau pwysig hefyd.

Bwriadwn i Addysg Gorfforol fod yn fwynhad fel bydd y disgyblion yn ymddiddori ac yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amrywiol. Drwy hynny gobeithiwn ddatblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd.

Mae'r ysgol yn hyfforddi'r plant mewn amryw o weithgareddau gan gynnwys gymnasteg, dawns, gemau, nofio, athletau a gweithgareddau antur. Yn y Cyfnod Sylfaen mae pob plentyn yn cael 1 awr yr wythnos o wersi Addysg Gorfforol. Erbyn Cyfnod Allweddol 2 mae'r plant yn treulio o leiaf awr a chwarter bob wythnos mewn gwersi Addysg Gorfforol. Yn ogystal â hyn mae yna gyfle i'r plant fynychu sesiynau hyfforddiant ychwanegol yn wythnosol ar ôl oriau ysgol. Cynhelir y gweithgareddau yma ar gaeau'r ysgol, y cyrtiau pêl-rwyd neu ym mhwill nofio Canolfan Hamdden Plascrug.

Mae gan yr ysgol nifer o dimau sy'n rhoi cyfle i'r plentyn i gystadlu yn unigol ac fel aelod o dîm.

Mae'r timau'n cynnwys:

- Timau pêl-droed, sy'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd a Chymdeithas Pêl-droed Cymru.
- Timau hoci sy'n cystadlu yng Nghynghrair Mini Minor
- Timau pêl-rwyd sy'n cystadlu yng nghystadlaethau Cymdeithas Pêl-rwyd Cymru a'r Urdd.
- Timau rygbi, sy'n cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd
- Timau nofio sy'n cystadlu yng Ngalâu'r Urdd a Chymdeithas Chwaraeon Cylch Aberystwyth.
- Timau rhedeg traws gwlad sy'n cystadlu ym mhencampwriaethau'r Urdd a Chymdeithas Chwaraeon Cylch Aberystwyth a Dyfed.
- Timau Gymnasteg.

Yn ogystal â hyn ym mlynnyddoedd 5 a 6 rhoddir y cyfle i'r plant fynychu canolfannau preswyl sy'n canolbwyntio ar weithgareddau awyr agored.

PHYSICAL EDUCATION AND HEALTHY LIVING

The school provides a stimulating and secure environment for pupils where they can aim to achieve general maturity and develop physical skills through healthy living. Activities offered provide pleasure as well as fulfilling creative and fitness needs. We teach and provide an opportunity to practise and improve those skills that are relevant to the activity.

We also attempt to develop a social awareness along with a social training through individual expression. We aim to promote confidence through physical activity and to develop an awareness of the importance of health through exercise. Healthy food choices and learning about the body are all important aspects.

Physical Education should be enjoyable so that pupils are interested and ready to participate in various activities. Hence we hope to develop an awareness and appreciation of the environment.

The school offers training in numerous activities including gymnastics, dance, games, swimming, athletics and adventure activities. In the Foundation Phase, every pupil will have one hour of Physical Education per week. By Key Stage 2, the children will spend at least an hour and a quarter each week in Physical Education lessons. On top of this there are further weekly training sessions after school hours. These activities are held on the school fields, the netball courts or in the swimming pool at Plascrug Leisure Centre.

The school has several teams which gives pupils the opportunity to participate in competitions as individuals or as team members.

The teams include:

- Football teams which compete in the Urdd and the Welsh Football Association competitions.
- Hockey teams which compete in the 'Mini Minor' league.
- Netball teams, which compete in the Welsh Netball Association and Urdd competitions.
- Rugby teams, which compete in Urdd competitions.
- Swimming teams, which compete in the Aberystwyth Area Sports Society and the Urdd galas.
- Cross country running teams, which compete in the Aberystwyth and Dyfed Area Sports Society and Urdd championships.
- Gymnastic teams.

In addition, in Years 5 and 6 children are given the opportunity to attend residential centres which specialise in open air activities.





GWYDDONIAETH

Mae gwyddoniaeth yn rhan o fywyd a bydd y plentyn yn datblygu:

- a) meddwl dadansoddol a beirniadol drwy ddilyn dulliau rhesymegol a darganfod yn seiliedig ar arsylwi, dyfalu ac arbrofi;
- b) dealltwriaeth o bethau byw a phrosesau sylfaenol bywyd;
- c) dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio a datblygu adnoddau'r amgylchfyd.

Ymdrinnir â materion rhyw mewn ffordd sensitif yng ngwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Gwyddoniaeth.

AGWEDDAU AMGYLCHEDDOL A DAEARYDDOL

Mae'r ysgol yn hybu parch tuag at yr amgylchedd, ac wedi ennill statws Ysgol Platinwm yn sgil gweithgarwch Eco gyfeillgar. Rydym hefyd yn meithrin diddordeb y plentyn yn nhirwedd, hinsawdd ac elfennau daearyddol amlwg yr amgylchfyd, gan ystyried eu dylanwad ar fodolaeth a lleoliad y gymdeithas.

DYLUNIO A THECHNOLEG

Prif nodwedd Dylunio a Thechnoleg yw'r ffaith ei fod yn rhoi cyfle i ddisgyblion wireddu a chynrychioli syniadau o'u dychymyg ar ffurf darluniau, cynlluniau, modelau, arddangosfeydd ac efelychiadau cyfrifiadurol. Mae datblygiad syniadau o'r egin cyntaf i'r penllanw fel canlyniad ymarferol yn broses a elwir yn Broses Ddylunio.

ADDYSG GREFYDDOL A CHYDADDOLI

Mae gwasanaethau boreol yr ysgol yn rhan bwysig o ethos ac ymdeimlad yr ysgol Gymraeg. Cysylltir yr agwedd grefyddol â phrofiadau plant yn eu bywydau beunyddiol, gan bwysleisio'r agwedd o feddwl am eraill a gofalu amdanynt. Mae'r Gwasanaeth dyddiol a gynhelir yn yr ystafell ddosbarth ar wahân i'r cynulliadau yn y Neuadd yn rhan bwysig o ddatblygu'r ymdeimlad o gymdeithas. Cyflwynir gwybodaeth am grefyddau'r byd ond pwysleisir y grefydd Gristnogol. Trefnir casgliadau tuag at achosion dyngarol lleol a chenedlaethol.

24 Rhoddir hawl i rieni i eithrio'u plant o wersi Addysg Grefyddol a Chydaddoliad os bydd rhesymau priodol.

SCIENCE

Science is part of life and the child will develop:

- a) an analytical and critical mind through logical methods of discovery based on observation, hypothesis and experimentation;
- b) an understanding of living things and the basic processes of life;
- c) an understanding of the means by which environmental resources can be used and developed.

Matters relating to sex education are dealt with sensitively in Personal and Social Education and Science lessons.

ENVIRONMENTAL AND GEOGRAPHICAL ASPECTS

The school promotes respect to our environment, and has won the Platinum School status following Eco friendly activities. We also encourage the children's interest in landscape, climate and major geographical features of the environment, and to consider their influence on the existence and location of society.

DESIGN AND TECHNOLOGY

The main feature of Design and Technology is that it gives pupils the opportunity to create pictures, plans, models, exhibitions and computer images from concepts in their imagination. Developing concepts from the very first idea through to the completed project as a practical consequence is a process called the Design Process.

RELIGIOUS EDUCATION AND COLLECTIVE WORSHIP

The morning assemblies are an important part of Ysgol Gymraeg's ethos. The religious aspect is linked to the children's own experiences in their everyday lives, emphasising religion's altruistic and caring aspects. The separate daily Service held in the classroom, as well as the general assemblies held in the Hall, are an important part of developing a feeling of community. The children are taught about other world religions, but the emphasis is on Christianity. Collections towards local and national humanitarian causes are arranged.

Parents are allowed to remove their children from Religious Education lessons and collective worship for appropriate reasons.





DEFNYDDIO'R GYMRAEG

Gan ei bod yn Ysgol Gymraeg benodedig, y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ac fe'i defnyddir ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Y Gymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith yr adran feithrin a'r Cyfnod Sylfaen, er mwyn i'r plant gael sylfaen gadarn yn yr iaith. Cymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith yn yr adrannau Iau a dechreuir cyflwyno'r Saesneg rhwng diwedd y Cyfnod Sylfaen (Plant Bach) a Chyfnod Allweddol 2 (Adran Iau) er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle i ddatblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol yn 11 oed. Rhag-orfraint yr ysgol yw cael cyfle i gyfranogi o gyfoeth diwylliant drwy gyfrwng dwy iaith.

IAITH

Mae iaith yn ddylanwad unigryw yn natblygiad plentyn ac yn sylfaen pob dysg. Ceisiwn feithrin agwedd gadarnhaol at iaith drwy gynnig i blentyn amrywiol brofiadau a fydd yn symbylu ymateb synhwyrol, bywiog a deallus a fydd yn datblygu gallu ieithyddol plentyn yn ei holl agweddau goddefol a gweithredol – a hynny yn y ddwy iaith. Byddwn yn meithrin diddordeb plentyn mewn llenyddiaeth yn ei hamryfal ffurfiau gan sicrhau bod y profiad o ddarllen, gwranddo, gwyllo ac ymateb bob amser yn bleserus ac yn foddhaus. Drwy wneud hyn, byddwn yn creu yn y plentyn ymwybyddiaeth o werth yr etifeddiaeth Gymreig fel y gall ymdeimlo â chyfoeth ei gefndir (cynhenid neu fabwysiedig) a pharchu gwahanol ddiwylliannau.

Yn gryno, byddwn yn datblygu pedair elfen ieithyddol, sef gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu fel a ganlyn:-

GWRANDO

Datblygu gallu plentyn i wrando'n effeithiol mewn sefyllfaoedd torfol, sefyllfaoedd grŵp ac fel unigolyn er mwyn iddo gael pleser neu ddiddanwch, ymateb i gyfarwyddyd ac ymateb yn greadigol.

SIARAD

Datblygu gallu plentyn i siarad yn glir, yn ddealladwy ac yn hyderus mewn iaith briodol i'r sefyllfa dan sylw, gan ymarfer gofal am gywirdeb.

DARLLEN

Meithrin y plentyn fel darllenwr o'r cychwyn cyntaf fel y gall:

- gael pleser neu ddiddanwch;
- ddyfnhau ei ddealltwriaeth;
- gasglu gwybodaeth;
- ddatblygu'i allu i fod yn feirniadol yn ei ddarllen
- ac i werthfawrogi llyfrau da.

YSGRIFENNU

Rhoi cyfle i'r plentyn ymateb yn ysgrifenedig i wahanol brofiadau a sefyllfaoedd ac i ysgrifennu i wahanol ddibenion fel y gall:

- ddefnyddio ysgrifennu fel cyfrwng i ddod i delerau â'i fyd;
- ddefnyddio ysgrifennu i ddyfnhau'i ddealltwriaeth;
- ddewis a defnyddio ffurf ar ysgrifennu sy'n briodol ar gyfer y pwrpas sydd iddo

USE OF WELSH LANGUAGE

Since it is a designated Welsh school, Welsh is the official language of the school and it is used for every aspect of the curriculum. Welsh will be the main medium of education and life in the Nursery and the Foundation Phase so that the children acquire a sound grounding in the language. Welsh will be the main medium of education and school life in Key Stage 2, and English is initially introduced between the end of the Foundation Phase (Infants) and Key Stage 2 (Juniors) so that there is an opportunity for the pupils to become completely bilingual by the time they leave the school at the age of 11. It is the school's privilege and advantage to be able to enjoy cultural riches through the medium of two languages.

LANGUAGE

Language has a unique influence on a child's development and is the basis of all learning. We endeavour to foster a positive attitude towards language by offering the child a variety of experiences which will stimulate a sensible, intelligent and lively response, thereby developing linguistic ability in all its passive and active aspects, in both languages. We encourage children to take an interest in literature in all its forms, ensuring that the experience of reading, listening, watching and responding are always pleasurable and satisfying. In this way, we create in the child an awareness of the value of Welsh heritage so that she/he may empathise with the richness of his/her (indigenous or adopted) cultural background, as well as encouraging respect for other cultures.

Basically, we develop four linguistic elements, namely listening, speaking, reading and writing:

LISTENING

To develop a child's ability to listen effectively in crowd, group and individual situations for pleasure or entertainment, to respond to instructions, and to respond creatively.

SPEAKING

To develop a child's ability to speak clearly, intelligibly, confidently and correctly using language appropriate to the situation.

READING

To nurture children to be readers from the outset so that they may:

- read for pleasure or entertainment
- enhance their understanding
- acquire information
- develop the ability to be critical in their reading and to appreciate good books.

WRITING

To provide the child with the opportunity to respond in writing to different experiences and situations and to write for different purposes so that she/he may:

- use writing as a medium to come to terms with his/her world;
- use writing to enhance his/her understanding;
- choose and use an appropriate form of writing for a particular purpose.



ASESU

Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig blynyddol i rieni am gynnydd ei plentyn. Asesir plant yn fewnol fel rhan o bolisi asesu'r ysgol. Yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol asesir y disgyblion drwy asesiad athro/athrawes ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

Yn amgäedig ceir canlyniadau asesu agregedig yr ysgol o dan y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a'r wybodaeth gymharol genedlaethol (Cymru gyfan) yn seiliedig ar ganlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2.

ASESU AR GYFER DYSGU

Cynhelir cyfnodau agored tymhorol er mwyn i'r rheini weld gwaith eu plant a thrafod eu datblygiad gyda'r athrawon. Mae pob athro / athrawes yn cadw asesiadau manwl am eu plant ac yn trafod y 'ffordd ymlaen' gyda rhieni yn ystod y noson agored.





ASSESSMENT

Parents are given an annual written report on their child's progress. In accordance with the school's assessment policy, the children are assessed internally. In accordance with National Curriculum requirements, pupils are assessed at the end of Key Stage 2 by means of teacher assessment.

Enclosed are the school's aggregated assessment results under the National Curriculum for Key Stage 2, and the national comparative information (for the whole of Wales) based on the National Curriculum assessment results in Key Stage 2.

ASSESSMENT FOR LEARNING

Open sessions are held each term for the parents to see their children's work and to discuss their development with the teachers. Each teacher keeps detailed assessments of the pupils' work and discusses the 'way forward' with parents during the open evening.

TREFN DIOGELU AC AMDDIFFYN PLANT

Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, i sôn am y mater wrth Gyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

Gall Cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr Ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol y sir. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio.

Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

Y Pennaeth Mr Clive Williams yw Cyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol; ac yn ei absenoldeb Mr Gareth James, Dirprwy Pennaeth.

Y Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am ddiogelu plant yw Mr John Roberts.

POLISI BWLIAN

Mae hawl sylfaenol gan holl aelodau'r ysgol gael eu parchu gan bawb ac i brofi bywyd hapus yn yr ysgol. Mae unrhyw fath o fwlian yn hollol annerbyniol. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn ac yn drylwyr i bob achos o fwlian. Gwnaiff yr ysgol pob ymdrech i sicrhau nad yw bwlian yn digwydd.

Mae Cyngor yr Ysgol yn cyfarfod yn gyson gyda'r Pennaeth ac trafod unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu hawliau fel unigolion. Dylid cysylltu â'r ysgol ar unwaith pan fo rhieni yn pryderi am achosion o fwlio.

CHILD PROTECTION PROCEDURES

All members of staff within this school are responsible for the safety and protection of the children who attend. If there are concerns regarding neglect or physical, emotional or sexual abuse then, under the County's Child Protection Procedures, staff are duty bound to report the matter to the school's Child Protection Co-ordinator.

The school's Co-ordinator may consult with professional colleagues as well as relevant agencies such as Health and Social Services. Following these discussions the school's Co-ordinator may be obliged to make an official referral to the Social Services Department in accordance with county guidelines and protocol. It is the Social Services Department who decides on the next course of action.

Due to the nature of the allegations it may not always be appropriate to discuss matters with parents prior to making a referral. The responsibility for investigating allegations lies with Social Services and the Police.

The Headteacher, Mr Clive Williams is the school's Child Protection Co-ordinator, and in his absence Mr Gareth James, Deputy Headteacher.

The Governor responsible for Child Protection is Mr John Roberts.

ANTI-BULLYING POLICY

Every member of the school has a basic right to be respected by everyone and to enjoy a happy life at school. Any form of bullying is totally unacceptable. The school reacts firmly and thoroughly to every instance of bullying. The school will make every attempt to ensure that bullying does not occur.

The School Council meets regularly with the Headteacher to discuss any matters which affect their rights as individuals. Parents should contact the school immediately if they are concerned about an instance of bullying.

TREFNIADAETH FUGEILIOL

Y Prifathro sy'n gyfrifol am drefniadaeth fugeiliol yr ysgol. Yr athrawon dosbarth sy'n gyfrifol am gynydd addysgiadol a gofal bugeiliol y plant o fewn eu dosbarth.

Os oes gan rieni unrhyw bryder ynglŷn â'u plant dylent gysylltu â'r Prifathro yn gyntaf fel y gellir ei drafod a threfnu, os bydd angen, i gyfarfod â'r athro/athrawes ddosbarth.

DISGYBLAETH A RHEOLAU'R YSGOL

Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn dderbyniol ac fel aelod o gymdeithas o fewn yr ysgol. Fe'u hanogir i ystyried ac i barchu hawliau ac eiddo pobl eraill. Bydd unrhyw gosb a weinyddir yn rhesymol a chymedrol yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Addysg.

Mae'r ysgol yn hybu hunan ddisgyblaeth yn unol â nodau ac amcanion yr ysgol.

Ni chaniateir rhedeg o fewn yr adeilad.

Ni chaniateir bwyta melysion na chreision yn yr ysgol ond croesewir ffrwythau.

Ni chaniateir dod â theganau nac eiddo gwerthfawr i'r ysgol os na wneir cais amdanynt gan yr athrawon dosbarth. Dylid rhoi ysbwriel mewn biniau bob amser.

Ni ddylid cadw arian nac unrhyw beth gwerthfawr mewn cotiau a bagiau. Dylid eu rhoi i'r athrawon i'w cadw'n ddiogel. Mae pob dosbarth yn mynd drwy'r broses o drafod a chreu rheolau penodol ar gyfer eu dosbarth pob blwyddyn.

Rydym yn ystyried 'llais y dysgwr' yn bwysig.

PASTORAL ARRANGEMENTS

The Headteacher is responsible for the school's pastoral arrangements. Class teachers are responsible for educational progress and for pastoral care of the children within their class.

If parents are in any way concerned about their children, they should initially contact the Headteacher in order to discuss the matter, and if necessary to arrange a meeting with the child's class teacher.

SCHOOL RULES AND DISCIPLINE

Every child is expected to behave in an acceptable manner and as a member of a community within the school. Children are encouraged to respect the property and rights of others. Any punishment which is administered will be reasonable and moderate in accordance with the Education Authority's guidelines.

The school encourages self-discipline in accordance with the school's aims and objectives.

Running is not permitted in the building.

Sweets and crisps are not allowed to be eaten at school, but fresh fruit is welcomed.

Children are not permitted to bring valuable toys and property to school, unless specifically requested to do so by the class teacher. Rubbish should always be placed in bins.

Money or any valuable items should not be kept in coat pockets or bags. They should be handed over to teachers for safe keeping. Each class goes through the process of discussing and creating their own set of class rules each year.

The 'pupil's voice' is important to us.

CLYBIAU LLYFRAU

Rhoddir cyfle i'r plant ymuno â Chlwb Sbondonics, Sbri-di-ri ac Wcw, a hefyd Clwb Llyfrau Puffin a Cip yng Nghyfnod Allweddol 2. Archebir cylchgronau'r Urdd.

Cynhelir ffair lyfrau yn ystod y flwyddyn.

GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Mae gan yr ysgol raglen gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys cystadlu mewn eisteddfodau, perfformio mewn cyngherddau, rhaglen chwaraeon eang a Chlybiau amrywiol.

YR URDD

Bu cysylltiad agos â'r Urdd o'r cychwyn cyntaf gan mai yng Nghanolfan yr Urdd, Ffordd Llanbadarn y plannwyd hedyn addysg Gymraeg, a sylfaenydd y mudiad, Syr Ifan ab Owen Edwards oedd Llywydd cyntaf yr ysgol. Bydd yr Adran yn cyfarfod yn rheolaidd ar ôl ysgol ar brynhawn Mercher yn ystod tymhorau'r Nadolig a'r Pasg. Dibynna'n helaeth ar arbenigedd rhieni i gynorthwyo'r athrawon.

Mae i'r ysgol draddodiad o gystadlu eisteddfodol cyfoethog. Caiff aelodau Urdd gyfle i gystadlu yn holl weithgareddau'r Urdd gan gynnwys chwaraeon.

BOOK CLUBS

Children can join the *Sbondonics*, *Sbri-di-ri* and *Wcw* book clubs, as well as the Puffin Book Club and *Cip* in Key Stage 2. Orders are taken for Urdd magazines.

A book fair is held during the year.

EXTRA-CURRICULAR ACTIVITIES

The school has a strong tradition of extra-curricular activities, which include competing in eisteddfodau, performing in concerts, a comprehensive sports programme and various clubs.

URDD

There have been close contacts with the Urdd from the beginning, since it was at the Urdd Centre in Llanbadarn Road that the seeds of Welsh Education were planted and the founder of the Urdd, Sir Ifan ab Owen Edwards, was the school's first President. The Urdd group (Adran yr Urdd) meets regularly after school on Wednesday afternoons during Christmas and Easter terms. Much use is made of parents' expertise to assist the teaching staff.

The school has a strong tradition of competing in eisteddfodau. Members of the Urdd have an opportunity to compete in all Urdd activities, including sports.



ADDYSG RHYW

Cyflwynir agweddau o Addysg Rhyw drwy'r rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Bydd yr ysgol yn dysgu Addysg Rhyw yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Os gofynnir cwestiwn gan blentyn, disgwylir i'r athro ateb yn onest a chall gyda sensitifrwydd gan gadw mewn golwg aeddfedrwydd y plentyn.

Cyflwynir y fideo 'Prifio' gan Nyrs yr Ysgol i blant Blwyddyn 6 yn ystod eu tymor olaf. Bydd y nyrs hefyd yn trafod datblygiad y corff, mewn modd addas i deimladau ac aeddfedrwydd y plant. Mae croeso i rieni gwrdd â Nyrs yr ysgol ymlaen llaw i weld y deunydd a ddefnyddir mewn cysylltiad ag Addysg Rhyw.

Mae gan rieni hawl i dynnu eu plant o'r cwricwlwm addysg rhyw cyfan neu o ran ohono ag eithrio'r hyn a ragnodir yng Ngorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Nid oes raid i rieni egluro pam eu bod yn eithrio eu plentyn.

HYFFORDDIANT MEWN SWYDD

Trefnir H.M.S. a datblygiadau cwricwlaidd o fewn o flwyddyn addysgol. Ar y diwrnodau yma mi fydd yr ysgol ar gau ar gyfer y disgyblion. Rhoddir rhybudd priodol o'r dyddiadau cau.

CWYNION YNGLŶN Â'R CWRICWLWM

Gellir gwneud cwynion ynglŷn â'r Cwricwlwm yn unol â'r trefniadau a sefydlwyd o dan Adran 409 o Ddeddf Diwygio Addysg 1996. Cysyllter â'r Pennaeth am ragor o wybodaeth.

SEX EDUCATION

Sex Education is introduced through the Personal and Social Education programme. The school will teach Sex Education in accordance with National Curriculum requirements. If a question is asked by a child, the teacher is expected to give an honest and prudent answer in a sensitive manner, taking into consideration the child's level of maturity.

During their final term, Year 6 children are shown a video by the School Nurse, who also gives a talk on the body's development, appropriate to the children's feelings and level of maturity. Parents are welcome to arrange a meeting with the School Nurse in advance to see the material used in relation to Sex Education.

Parents are permitted to remove their children from part or whole of the sex education curriculum apart from that stipulated in the National Curriculum directive. No explanation is required from parents wishing to exclude their children.

IN-SERVICE TRAINING

In-service training and curricular development is organised during the academic year. On these days the school will be closed for pupils. Appropriate warnings of the dates of closure will be given.

COMPLAINTS REGARDING THE CURRICULUM

Complaints regarding the Curriculum can be submitted in accordance with the provisions established under Section 409 of the Educational Reform Act 1996. Please contact the Headteach-





YMWELIADAU

Trefnir ymweliadau yn ymwneud â'r themâu tymhorol. Bydd yr athrawon dosbarth yn ymchwilio i ymweliadau pwrpasol fydd yn cyfoethogi dysgu ac addysgu effeithiol. Gwahoddir siaradwyr/wragedd gwadd i annerch y plant yn yr ysgol.

CODI TÂL

Gofynnir am gyfraniadau gwirfoddol i dalu costau cludiant ar gyfer ymweliadau addysgol. Noddir hanner costau cludiant pob ymweliad gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Caiff disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 gyfle i dreulio tridiau yng Ngwersyll Glan-Ilyn neu Gaerdydd yn flynyddol. Mae'r ysgol gofyn am gyfraniadau am wersi offerynnol ac ymweliadau preswyl. Danfonir y wybodaeth berthnasol i rieni ar ffurf llythyr neu gytundeb pan fo hynny'n briodol. Os oes disgybl yn derbyn cinio am ddim yna ni chodir tâl. Mae'r ysgol bob amser yn barod i drafod pan fo rhiant / gwarcheidwad yn pryderi am gostau sy'n ymwneud â'r ysgol.

TYWYDD GARW

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Os mewn amheuaeth cadwch y plentyn gartref neu ffoniwch yr ysgol. Weithiau bydd angen anfon y plant gartref yn gynnar ond byddwn yn ffonio'r cartref yn gyntaf.

VISITS

Visits are arranged based on the term's educational theme. The class teachers research appropriate visits which will enrich effective teaching and learning. Visitors are invited to the school to address the children.

PAYMENTS

A request is made for voluntary contributions to cover transport costs for educational visits. Half the transport costs for all visits are sponsored by the Parent Teacher Association. Year 5 and 6 pupils are given the opportunity to spend three days at the Urdd Camp at Glan-Ilyn or Cardiff each year. The school asks for a contribution towards instrument lessons and residential visits. The relevant information is sent to parents in the form of a letter when relevant. If a child receives free school lunches then no payment is needed. The school is always ready to discuss when a parent/guardian is worried about costs relating to the school.

BAD WEATHER

Every attempt is made to keep the school open. If in any doubt, keep the child at home or phone the school. Occasionally, children will have to be sent home early but the school will phone the child's home first.

ABSENOLDEBAU

Cynghorir pob rhiant i sicrhau fod pob plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Gwerthfawrogir nodyn neu e-bost yn esbonio pob absenoldeb er mwyn osgoi ymholiadau swyddogol. Gall hyd yn oed absenoldeb byr amharu ar ddilyniant addysg eich plentyn.

Enghraifft:

Roedd fy mhentyn yn absennol oherwydd.....
Llofnod rhiant/gwarcheidwad: _____

ABSENOLDEBAU GYDA CHANIATÂD, A HEB GANIATÂD

Cynhwysir y wybodaeth fel atodiad yn flynyddol yn adroddiad blynyddol y Prifathro i'r Corff Llywodraethol.

ABSENCES

Every parent is advised to ensure that each child attends school regularly. A note or e-mail explaining every absence is appreciated in order to avoid official enquiries. Even a short absence can have an adverse effect on your child's education.

e.g.

My child was absent because.....

Signature of Parent/Guardian: _____

ABSENCES WITH AND WITHOUT PERMISSION

Information is included in the Headteacher's annual report to the Governing Body.

**PRESENOLDEB Y FLWYDDYN ACADE-
MAIDD DDIWETHAF: 96.2%**

ABSENNOL GYDA CHANIATÂD: 2.81%

ABSENNOL HEB GANIATÂD: 0.95%

**ATTENDANCE DURING THE LAST
ACADEMIC YEAR: 96.2%**

AUTHORISED ABSENCES: 2.81%

UNAUTHORISED ABSENCES: 0.95%

GWISG YSGOL

Nid oes gwisg swyddogol i'r ysgol er bod cyfle i blant brynu Crys-T neu grys chwys ac arfbais yr ysgol arnynt.

Disgwylir i'r plant wisgo yn addas a thaclus.

Dylid labelu pob dilledyn. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu ag ysgrifenyddes yr ysgol.

DILLAD ADDYSG GORFFOROL

Cyfnod Sylfaen

Trowsus ysgafn

Crys-T

Esgidiau rhedeg cadarn

Cyfnod Allweddol 2

Esgidiau rhedeg cadarn

Esgidiau pêl-droed

Crys neu siwmpwr chwaraeon

Trowsus (byr a hir)

Gwisg nofio a thywel

Benthycir dillad priodol i'r plant sy'n cynrychioli timau'r ysgol.

Ni chaniateir i unrhyw blentyn wisgo tlysau yn ystod gwersi Addysg Gorfforol.

Dylai'r rhieni sicrhau fod gan y plentyn ddillad glân i'w gwisgo ar ôl gwersi Addysg Gorfforol.

SCHOOL UNIFORM

There is no official uniform although children are given the opportunity to buy a T-shirt or sweatshirt bearing the school's logo. Children are expected to be tidily and appropriately dressed. All articles of clothing should be labelled. For more information contact the school secretary.

PHYSICAL EDUCATION KIT

Foundation Phase

Light Trousers

T-shirt

Strong trainers

Key Stage 2

Strong trainers

Football boots

Sports shirt or jumper

Trousers (long and short)

Swimming costume and towel

Suitable clothes can be lent to children who are members of school teams.

No child is allowed to wear jewellery during Physical Education lessons.

Parents should ensure that a child has clean clothing to wear after a Physical Education lesson.



"Rhannu dysg a meithrin dawn,
Coflaid o addysg gyflawn."



CYMDEITHAS RHINI AC ATHRAWON

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni Athrawon cefnogol iawn.

Cynhelir y cyfarfod blynyddol yn ystod tymor yr Hydref a threfnir rhaglen o weithgareddau gogyfer â'r flwyddyn. Darperir offer cyfieithu ymhob cyfarfod.

Cefnogir gweithgareddau'r ysgol gan gymuned frwdfrydig sy'n cyfrannu'n hael tuag at y gronfa.

I weld pwy yw'r cynrychiolwyr eleni, ewch i dudalen y Gymdeithas ar wefan yr ysgol sef:

<http://www.ysgolgymraeg.cymru/crha.html>



PARENT TEACHER ASSOCIATION

The school has a very supportive Parent Teacher Association.

The annual meeting is held during the autumn term and a programme of activities is arranged for the coming year. Simultaneous translation is provided at all meetings.

The activities of the school are supported by an enthusiastic community who contribute generously to funds.

To see who this year's representatives are, please visit the Association's page on our website:

<http://www.ysgolgymraeg.cymru/english/pta.html>











Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Diolch am ddarllen ein prospectws

DOLENNI DEFNYDDIOL






Cliciwch ar y dolenni canlynol ar gyfer dod o hyd i fwy o wybodaeth sydd ar gael trwy wefan yr ysgol:

- [Ffurflen Dderbyn yr Ysgol](#) 
- [Gwybodaeth parthed cymryd gwyliau adeg y tymor](#) 
- [Staff yr ysgol](#) 
- [Llywodraethwyr yr ysgol](#) 
- [Gwefan yr Awdurdod Addysg](#) 
- [Tudalen Polisiau'r Ysgol](#) 

Thank you for reading our prospectus

USEFUL LINKS

Click on the following links to find more information available through the school website:

- [School Admissions Form](#) 
- [Information regarding going on holidays during term time](#) 
- [School staff](#) 
- [School governors](#) 
- [Education Authority Website](#) 
- [School Policies page](#) 